# Papur y Porth

Rhifyn 19 Mawrth 2026

SLIDESMANIA.COM

# Croeso gan y Pennaeth

# Welcome from the Head



Wrth i ni ddod at ddiwedd hanner tymor byr ond hynod brysur, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r staff am eu gwaith caled a'u hymroddiad parhaus wrth gefnogi ein dysgwyr. O ganlyniad i'r gefnogaeth, mae'r plant wedi mwynhau nifer o brofiadau cyfoethog dros y tymor diwethaf.

Roedd perfformiadau'r plant yn yr Eisteddfod Gylch yn uchafbwynt arbennig ac yn hyfryd gweld eu hyder a'u talent yn datblygu. Yn yr un modd, dangosodd y rhai a gymerodd ran yn nhwrnamaint pêl-droed yr Urdd ysbryd tîm rhagorol ac ymdeimlad o falchder. Cawsom wasanaeth Dydd Gŵyl Dewi hyfryd gan y Cyfnod Sylfaen gyda'r plant yn canu gyda balchder ac yn dathlu'r iaith Gymraeg. Gwnaeth y côr ysgol hefyd waith arbennig wrth berfformio i'r *Friendship Group* yn Jerwsalem ac yn Neuadd Penbre – profiadau gwerthfawr i'n disgyblion ac yn destun balchder i'r ysgol wrth i ni gefnogi'r gymuned.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein coedwig ysgol gyda mwy o waith plannu yn ystod y tymor. Diolch enfawr i'r holl rieni am eich cefnogaeth—mae eich cyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy a mwynhaodd y plant weithio ochr yn ochr â chi. Mae ein sesiynau Aros a Chwarae wedi bod yn lwyddiant unwaith yn rhagor gan feithrin cysylltiadau cadarnhaol a chyfleoedd i chwarae yn yr ardal allanol gyda'r plant ar ddiwedd y dydd. Yn ogystal, rydym wedi cynnal mwy o hyfforddiant Mathemateg a Iaith i rieni sy'n parhau i gryfhau'r gefnogaeth rhwng cartref ac ysgol.

Diolch o galon i bawb am eich cyfraniad at hanner tymor llwyddiannus a chadarnhaol. Dymunwn wyliau Pasg hapus i chi ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl ar gyfer tymor olaf y flwyddyn ysgol.

# Croeso gan y Pennaeth

# Welcome from the Head



As we come to the end of a short but very busy half term I would like to extend my sincere thanks to all staff for their hard work and continued dedication in supporting our learners. Thanks to their commitment the children have enjoyed a wide range of enriching experiences over the past few weeks.

A particular highlight was the children's performances at the Eisteddfod Gylch where it was wonderful to see their confidence and talents shine. Many pupils also took part in the Urdd football tournament, representing the school with pride and excellent team spirit.
Our St David's Day service, led by our Foundation Phase learners was excellent with the children singing proudly and celebrating the Welsh language. The school choir also showcased their hard work and enthusiasm through performances for the *Friendship Group* in Jerusalem Chapel and Pembrey Memorial Hall—valuable experiences in the community that made us all very proud.

We have continued to develop our new school forest with further planting and outdoor activities. A special thank you to parents for supporting this project—your contributions have made a real difference, and the children thoroughly enjoyed working alongside you.
Our Stay and Play sessions have been a great success helping to build positive relationships and providing lovely opportunities for parents and children to play together outdoors at the end of the school day. We have also delivered additional Maths and Language workshops for parents, which continue to strengthen the partnership between home and school.

Thank you to everyone for contributing to such a positive and successful half term. We wish you all a happy and restful Easter break and look forward to welcoming everyone back for the remainder of the school year.

# Presenoldeb / Attendance

Pob disgybl, ar amser, pob dydd.

Every student, on time, every day

**PRESENOLDEB yr Ysgol BODDHAOL**

**93.71%**

**The school ATTENDANCE SATISFACTORY**

| Canran Presenoldeb | Erbyn diwedd y flwyddyn<br>By the end of the year | Canlyniad / Outcome |
|---|---|---|
| **95-100%** | Y cyfle gorau o   lwyddiant<br>***Best chance of success*** | Mae'ch plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu.<br>***Your child is taking full advantage of every learning opportunity.*** |
| **90-95%** | Colli o leiaf  2 wythnos o ddysgu<br>***At least 2 weeks of learning missed*** | Boddhaol.  Efallai y bydd rhaid i'ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny â gwaith.<br>***Satisfactory.  Your child may have to spend time catching up with work.*** |
| **85-90%** | Colli o leiaf 4 wythnos o ddysgu<br>***At least 4 weeks of learning missed*** | Gallai'ch plentyn fod mewn perygl o dangyflawni ac mae angen cefnogaeth ychwanegol oddi wrth ych i ddal i fyny â gwaith.<br>***Your child may be at risk of underachieving and may need extra support from you to catch up with work.*** |
| **80-85%** | Colli o leiaf 5½  wythnos o ddysgu<br>***At least 5 ½  weeks of learning missed*** | Mae presenoldeb gwael eich plentyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddysgu.<br>***Your child's poor attendance has a significant impact on learning.*** |
| Islaw/ under 80% | Colli o leiaf 7½ wythnos o ddysgu<br>***At least 7½ weeks of learning missed*** | Mae'ch plentyn yn colli addysg eang a chytbwys.  Rydych mewn perygl o gael eich erlyn.<br>***Your child is missing out on a broad and balanced education.*** |

SLIDESMANIA.COM

# CRhA/PTA





Diolch o galon i'r CRhA am godi dros £180 yn ystod ein bore Dydd Gŵyl Dewi. Rydyn ni mor ffodus o gael eich cefnogaeth barhaus, ac mae'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n hysgol. Diolch am eich gwaith caled a'ch brwdfrydedd!



A heartfelt thank you to the PTA for raising over £180 during our St David's Day morning. We are so fortunate to have your continued support, and it truly makes a real difference to our school. Thank you for your hard work and enthusiasm!

# Y Gymuned/The Community









Perfformiodd gôr yr ysgol i'r henoed yng Nghapel Jerwsalem ac yn Neuadd Penbre fel rhan o ddathliadau Dydd Gwyl Dewi.
DIOLCH AM Y CROESO!

SLIDESMANIA.COM

# Diogelu: Dim Cŵn ar safle'r ysgol
# Safeguarding: No Dogs on school site




Er mwyn diogelwch a lles ein disgyblion, rhieni a staff, **ni chaniateir cŵn ar safle'r ysgol** ar unrwy adeg.

Diolch am eich cydweithrediad wrth helpu i gadw ein hysgol yn le diogel i bawb.

For the safety and wellbeing of our pupils, parents and staff, **dogs are not permitted on the school site** at any time.

Thank you for your cooperation in helping us keep our school a safe environment for all.

SLIDESMANIA.COM

# Meithrin









Dros yr wythnosau diwethaf mae plant bach y Meithrin Rhan Amser wedi bod yn mwynhau ystod o weithgareddau Pasg hwylus ac addysgiadol. Wedi darllen a thrafod stori'r Pasg mewn grwpiau bach, bu cyfle i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau crefft creadigol megis gwneud cardiau Pasg, yn ogystal â datblygu eu sgiliau llawdrin manwl wrth fwydo "mwydod" i'r cywion bach. Maent hefyd wedi mwynhau ac arbrofi yn yr ardal ddŵr yn yr awyr agored, ac wedi meithrin eu hymwybyddiaeth o Numicon drwy gwblhau tasg mathemateg Pasg hwyliog a chreadigol. Mae wedi bod yn gyfnod prysur, llawn dysgu ac antur.

Over the past few weeks, the Part-Time Nursery children have been enjoying a range of fun and educational Easter activities. After reading and discussing the Easter story in small groups, the children have had the opportunity to take part in creative craft activities such as making Easter cards, as well as developing their fine motor skills by feeding "worms" to the little chicks. They have also enjoyed exploring and experimenting in the outdoor water area and have been developing their awareness of Numicon by completing a fun and creative Easter-themed maths task. It has been a busy time full of learning and adventure.

SLIDESMANIA.COM

# Derbyn / Meithrin

We have been busy exploring our exciting theme, *'Oh what a wonderful world'.* The children thoroughly enjoyed a memorable trip to the Llanelli Wetlands, where they observed wildlife in their natural habitats and developed a deeper appreciation for the environment. Back in the classroom, we have been learning all about animals, habitats, and minibeasts, sparking curiosity and lots of thoughtful discussions. We also celebrated St David's Day, immersing ourselves in Welsh culture by cooking delicious Welsh cakes and creating our own map of Wales, highlighting places that are special to us. Alongside these activities, the children have had many opportunities for investigative play and independent learning, building confidence, creativity, and a love of discovery through their play experiences.












Mae ein dosbarth Derbyn a Meithrin wedi bod yn brysur yn archwilio ein thema gyffrous, *"O mor hyfryd yw ein byd".* Mwynhaodd y plant ymweliad cofiadwy â Gwlyptiroedd Llanelli, lle gwelsant fywyd gwyllt yn eu cynefinoedd naturiol a datblygu gwerthfawrogiad dyfnach o'r amgylchedd. Yn ôl yn y dosbarth, rydym wedi bod yn dysgu am anifeiliaid, cynefinoedd a phryfetach, gan ennyn chwilfrydedd a llawer o drafodaethau diddorol. Buom hefyd yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, gan ymgolli yn niwylliant Cymru drwy goginio cacennau cri a chreu ein map ein hunain o Gymru, gan dynnu sylw at leoedd sy'n bwysig i ni. Yn ogystal â'r gweithgareddau hyn, mae'r plant wedi cael nifer o gyfleoedd ar gyfer chwarae ymchwiliol a dysgu annibynnol, gan feithrin hyder, creadigrwydd a chariad at ddarganfod trwy eu chwarae.

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 1

Mae Blwyddyn 1 wedi bod yn brysur iawn yn dysgu drwy'r llyfr *Pwy Sy Wedi Llyncu Llyr*, gan feddwl am sut gallwn ni gydweithio i helpu i leihau llygredd yn y môr. Maen nhw wedi creu posteri perswadiol i annog pobl i gadw ein traethau'n lân ac wedi dysgu sut i ddidoli ac ailgylchu sbwriel. Aethon ni ar daith i Benclacwydd hefyd, lle buon ni'n dysgu am effaith llygredd ar wlyptiroedd, dyfrffyrdd a'r môr. A heb anghofio ein perfformiad rhagorol yn ystod bore coffi Dydd Gŵyl Dewi, a gobeithio eich bod chi gyd wedi mwynhau! Mae wedi bod yn hanner tymor prysur iawn a dymunwn wyliau Pasg hapus i bawb!







Year 1 have been very busy learning through the book *Who Swallowed Stanley*, thinking about how we can work together to help reduce pollution in the sea. They have created persuasive posters to encourage people to keep our beaches clean and have learned how to sort and recycle rubbish. We also went on a trip to Penclacwydd, where we learned about the effects of pollution on wetlands, waterways and the sea. Not forgetting the excellent performance during the St David's Day coffee morning which we hope you all enjoyed! It has been a very busy half term, and we wish everyone a happy Easter holiday!

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 2

Am dymor prysur a chyffrous rydyn ni wedi'i gael ym Mlwyddyn 2!
Y tymor hwn, rydyn ni wedi bod yn cymharu ein hardal leol, Porth Tywyn, ag Agen yn Ffrainc. Fe wnaethon ni leoli Cymru a Ffrainc ar fapiau a dysgu sut i ddefnyddio cyfeiriadau cwmpawd i ddisgrifio ble mae lleoedd.
Yn y Gwyddoniaeth, fe wnaethon ni archwilio magnetau, darganfod y gwahanol begynau ac ymchwilio i ba ddefnyddiau sy'n fagnetig. Fe wnaethon ni hefyd weithio'n galed ar greu ein cylchedau trydan ein hunain—gwaith tîm gwych gan bawb!
Roedden ni wrth ein bodd yn dathlu ein bore coffi Dydd Gŵyl Dewi. Siaradodd y plant yn falch am ein hiaith a'n gwlad—a fe wnaethon ni hyd yn oed fwynhau taith hudolus o amgylch Cymru ar ddraig!
Pasg Hapus i chi gyd!

What a busy and exciting term we've had in Year 2!
This term, we have been comparing our local area of Porth Tywyn with Agen in France. We located both Wales and France on maps and learned how to use compass directions to describe where places are.
In Science, we explored magnets, discovering the different poles and investigating which materials are magnetic. We also worked hard on creating our own electric circuits—great teamwork all round!
We loved celebrating our St David's Day coffee morning. The children spoke proudly about our language and our country—and we even enjoyed a magical trip around Wales on a dragon!
Happy Easter to you all!

SLIDESMANIA.COM








# Blwyddyn 3

Aeth Blwyddyn 3 i Bentre Awel i gymryd rhan mewn decathlon cyffrous. Gwnaeth pawb fwynhau y cyfle i symud rhwng gweithgareddau amrywiol. Roedd yn fore llawn egni ac antur, ac roedd y disgyblion wrth eu boddau'n rhoi cynnig ar bob her newydd a dangos eu sgiliau mewn gwahanol ddisgyblaethau.





Year 3 visited Pentre Awel to take part in an exciting decathlon. The children thoroughly enjoyed moving between the different activities. It was a morning full of energy and adventure, and the pupils loved trying each new challenge and showing their skills across a range of events.



SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 4

Year 4 have thoroughly enjoyed learning about Lesotho this term. They have explored the country through a range of engaging activities, including drawing the national flag, researching daily rainfall and temperatures, and presenting their findings in graphs. The children have also compared schools in Wales with those in Lesotho, helping them to understand similarities and differences in daily life. They have developed their geography skills by labelling maps of both Wales and Lesotho and have strengthened their global awareness by learning about the seven continents. It has been wonderful to see their curiosity and enthusiasm throughout this topic.

Mae Blwyddyn 4 wedi mwynhau'n fawr dysgu am Lesotho y tymor yma. Maent wedi archwilio'r wlad drwy amrywiaeth o weithgareddau diddorol, gan gynnwys lluniadu'r faner genedlaethol, ymchwilio i lawiad dyddiol a thymheredd, a chyflwyno eu canfyddiadau ar ffurf graffiau. Mae'r disgyblion hefyd wedi cymharu ysgolion yng Nghymru ag ysgolion yn Lesotho, gan eu helpu i ddeall y tebygrwydd a'r gwahaniaethau mewn bywyd bob dydd. Maent wedi datblygu eu sgiliau daearyddiaeth drwy labelu mapiau o Gymru a Lesotho, ac wedi cryfhau eu dealltwriaeth o'r byd drwy ddysgu am y saith cyfandir. Mae wedi bod yn braf gweld eu chwilfrydedd a'u brwdfrydedd drwy gydol y pwnc hwn.








SLIDESMANIA.COM

# Y Cyngor Eco

Mae'r Cyngor Eco wedi bod yn brysur iawn yn gweithio tuag at eu targed y tymor hwn, sef denu mwy o fywyd gwyllt i dir yr ysgol. Maen nhw wedi helpu i sefydlu abwydfa yn yr ardal allanol ac wedi ychwanegu gwestai pryfed i'r ardd. Mae hyn wedi helpu i wneud yr ardal yn fwy deniadol i greaduriaid bach ac wedi dangos eu ymrymiad tuag at ofalu am yr amgylchedd.



The Eco Council have been very busy working towards their target this term, which is to attract more wildlife to the school grounds. They have helped to set up a wormery in the outdoor area and have added bug hotels to the garden. This has helped to make the area more appealing to small creatures and has shown their commitment to caring for the environment.

SLIDESMANIA.COM

# NEWYDDION DA!

## Y Cyngor ECO

Rydym wrth ein bodd yn cyhoeddi ein bod wedi llwyddo i sicrhau grant cymunedol o £20,000 gan y Loteri Genedlaethol i ddatblygu ein Twnel Tyfu! Allwn ni ddim aros i ddechrau arni. Cadwch lygad allan am ddatblygiadau pellach!


We are delighted to announce that we have managed to secure a £20,000 National Lottery community grant to develop our polytunnel! We can't wait to get started. Watch this space for further developments!

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

COMMUNITY FUND

SLIDESMANIA.COM

# Y Cyngor Ysgol








Yr hanner tymor hwn, fe wnaethon ni fwynhau cynnal mwy o'n sesiynau Aros a Chwarae poblogaidd. Er gwaethaf profi bron pob math o dywydd sydd gan Gymru i'w gynnig, dangosodd ein teuluoedd frwdfrydedd a gwytnwch rhyfeddol. Diolch yn fawr iawn i'r holl rieni a phlant a ddaeth draw, a ymunodd, a helpodd i wneud pob sesiwn yn brofiad mor gadarnhaol. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i Mrs Morris, a heriodd y gwynt, y glaw a'r heulwen i sicrhau bod y sesiynau'n rhedeg yn esmwyth, beth bynnag fo'r tywydd!











This half term, we enjoyed hosting more of our popular Stay and Play sessions. Despite experiencing just about every kind of weather Wales has to offer, our families showed wonderful enthusiasm and resilience. A huge thank you to all the parents and children who came along, joined in, and helped make each session such a positive experience. We are especially grateful to Mrs Morris, who braved the wind, rain, and sunshine to make sure the sessions ran smoothly, whatever the weather!

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 5

Roedd Blwyddyn 5 yn llawn brwdfrydedd yn ystod ein gwers gwyddoniaeth. Roedd pawb yn cymryd rhan yn weithredol, yn cydweithio ac yn mwynhau rhoi’r arbrawf ar waith.

Year 5 were full of enthusiasm during their Science lesson today. Everyone took part, worked brilliantly as a team and really enjoyed carrying out the experiment. A great hands-on learning session!








SLIDESMANIA.COM





# Blwyddyn 6

Mae Blwyddyn 6 wedi bod yn gweithio'n galed ar y cynllun 'Couch to 2km'. Gyda'r tywydd yn gwella, rydym wedi bod yn ymarfer dros yr hanner tymor ac wedi llwyddo i gwblhau'r 2km. Da iawn i bawb!"




Year 6 have been working hard on their 'Couch to 2km' challenge. With the weather improving, we have been practicing over half-term and have successfully completed the 2km. Well done to everyone!




SLIDESMANIA.COM


# Chwaraeon



Mae Blwyddyn 5 a 6 wedi cymryd rhan mewn twrnament pêl-droed y tymor hwn, ac mae Blwyddyn 3 wedi mwynhau profiad gwych yn y Decathalon. Hefyd, diolch yn fawr i'n Llysgenhadon am gynnal sesiynau gyda dosbarthiadau eraill drwy'r tymor - rydym yn gwerthfawrogi eich gwaith caled!

Year 5 and 6 have taken part in a football tournament this term, and Year 3 have enjoyed a fantastic experience at the Decathlon. A big thank you to our Sports Ambassadors for running sessions with other classes throughout the term we really appreciate your hard work!







SLIDESMANIA.COM